

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Rhagfyr 2014

Amser: 09.15 – 11.20

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/2575) yn:
<http://senedd.tv/cy/2575>

Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

Aelodau'r Cynulliad:

Christine Chapman AC (Cadeirydd)
Peter Black AC
Alun Davies AC
Jocelyn Davies AC
William Graham AC (yn lle Janet Finch-Saunders AC)
Mark Isherwood AC
Gwyn R Price AC
Rhodri Glyn Thomas AC

Tystion:

Nick Bennett, Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru
Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

Staff y Pwyllgor:

Sarah Beasley (Clerc)
Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)
Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)
Chloe Davies (Dirprwy Clerc)
Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)
Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mike Hedges a Gwenda Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo ar eu rhan.

1.3 Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Janet Finch-Saunders. Dirprwyodd William Graham ar ei rhan, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

2 Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013/2014

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.2 Cytunodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda manylion am lefelau'r indemniad a ddarperir gan awdurdodau lleol i aelodau mewn perthynas ag achosion cod ymddygiad.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013/14 – trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

6 Briff Ffeithiol: Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

6.1 Cafodd y Pwyllgor bapur briffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

7 Ystyried blaenraglen waith

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.

8 Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd ar Efen 1 yr ymchwiliad

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

9 Y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam–drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) – Ystyried trafodion y Pwyllgor yn ystod Cyfnod 2

9.1 Trafododd y Pwyllgor y modd y mae'n cynnal trafodion Cyfnod 2 a chytunodd i amrywio'r drefn ar gyfer ystyried y Bil fel a ganlyn:

- Adrannau 2-23
- Adran 1
- Teitl hir

10 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3): y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.